

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 23ain o Ionawr 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Elwyn Jones, Iwan Foulkes , Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Idris Jones, Berwyn Hughes, Berwyn Harding, Hedd Pugh, Geraint Morgans, Catrin Jones, John P Jones a Huw T Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau; Cyng. John P Roberts.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Ragfyr fel rhai cywir.

2. Materion yn codi .

- a) Nodwyd ymddiheuriad Sarah Bletcher, Warden Eglwys Mallwyd y tro diwethaf, a phenderfynwyd ei gwahodd atom i'r Cyngor y tro nesaf.
- b) Coed ger Eglwys Sant Tydecho, Mallwyd – roedd y Cyng Iwan LI Foulkes wedi gwenud ymholiadau ers y tro diwethaf, ac wedi danfon manylion allan i bawb. Penderfynwyd peidio gwneud dim ymhellach.
- c) Trafodwyd y penderfyniad i gynyddu'r preasept ar raddfa o 5%. Trafodwyd yr ymholiad a gafwyd gan yr Archwilydd yng nghyswllt yr arian sydd wrth gefn, ac na ddylid cadw mwy na cyfanswm y preasept. Gwelwyd fodd bynnag fod yna gryn wariant gennym fel Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a phenderfynwyd y dylid mynd ymlaen a'r cynnydd. Byddai'r preasept felly yn codi i £8,820 yn y flwyddyn 2019/20.
- d) Atgoffwyd pawb o'r drafodaeth gyda'r Cyng Dyfrig Siencyn y tro diwethaf ynglyn a'r angen i dorri coed ger comin Dolybont, sef ei fod wedi dweud y byddent hwy fel Cyngor Gwynedd yn eu torri, ar yr amod y byddem ni fel Cyngor Cymuned yn eu clirio. Roedd angen dilyn hyn i fyny.
- e) Roedd tyllau yn parhau ar Lawnt y Plas, ac angen atgoffa Cartrefi Cymunedol Gwynedd o'r cyflwr difrifol.

3. Materion Cynllunio

Roedd tri cais gerbron l'w ystyried, sef;

Cynllun trydan dwr yn cynnwys argae, pibell wedi ei chladdu, adeilad tyrbin, all-lifa cysylltiad l'r grid wedi ei gladdu yn **Ty'n Braich, Dinas Mawddwy.**

Trosi anecs yn uned llety gwyliau hunain gynhaliol yn **Plasau, Llanymawddwy.**

Codi tŷ gyda garej ar wahân a creu mynedfa ceir newydd (Ail-gyflwyniad)

Tir ger Tan y Llan, Llanymawddwy.

(yn yr achos hwn, cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng Iwan Foulkes, a chwblhauedd ddatganiad a gadael yr ystafell).

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r tri cais yma.

4. Materion Cyllid.

Cytunwyd I dalu anfoneb Tegid Humphreys am dorri gwair mynwent Mallwyd a Llanydawddwy eleni eto, sef y swm o £910.

Cytunwyd I dalu anfoneb John a Owen am ail- agor bedd ym mynwent Dinas Mawddwy, ar gyfer gwasanaeth ar y 7fed o Ragfyr, sef £460.

Penderfynwyd cyfrannu £1000 i Neuadd Dinas Mawddwy (cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng. Hedd Pugh, Catrin Jones ac Idris Jones), a £500 I Neuadd Aberangell ((cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng. Berwyn Harding a Iwan Ll. Foulkes.)

Penderfynwyd cyfrannu £600 i Eisteddfod y Groglith (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Hedd Pugh ac Arfon Hughes)

Cytunwyd I dalu anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru, sef yr archwiliad allanol, am gyfanswm o £432.60.

5. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd lythyr a datganiad i'r wasg am Feddygfa Glanwymyn, a'r newyddion siomdig fod lechyd Bro Ddyfi wedi gwneud cais I Fwrdd lechyd Powys I gau'r feddygfa. Roedd y gohebiaeth eisoes wedi ei ddanfôn i'r Cynghorywr. Gwelwyd y dylid cael mwy o wybodaeth am pa bryd y bydd yr ymgynghoriad swyddogol yn cychwyn, ac yna ymateb a gwrthwynebu. Roedd angen hefyd ysgrifennu at ein Haelod Seneddol a'n Haelod Cynulliad i fynegi siom fawr am hyn.
- b) Cyfeiriwyd at e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn ag adolygiad o gludiant cyhoeddus yng Ngwynedd. Byddai'r adolygiad yn cymryd blwyddyn a hanner i'w gwblhau. Gwelwyd fod yn bwysig i bawb rannu yr e-bost a'r arolwg – a oedd wedi ei ddanfôn ymlaen eisoes gan y Clerc.
- c) Cyfeiriwyd at e-bost yn amlinellu y gwaith sy'n mynd ymlaen i drosglwyddo cyfrifoldeb am reolaeth Canolfannau Hamdden Gwynedd i gwmni newydd fyddai ym mherchnogaeth Gyngor Gwynedd – sef o'r 1af Ebrill 2019.
- d) Nodwyd ebost Cartrefi Cymunedol Gwynedd ynglyn a 9 a 10 Heulfryn, sydd ar osod.
- e) Nodwyd fod e bost wedi ei ddanfôn i Gyngor Gwynedd ers y 15fed o Ionawr yn gofyn iddynt ail-lenwi bin halen ar y ffordd sy'n arwain i Cefn, Aberangell.
- f)

6. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd at fynwent Dinas Mawddwy, ac y dylid ail-edrych ar y penderfyniad i gychwyn claddu o'r pen pellaf. Penderfynwyd ail - bleidleisio ar hyn, a datgelwyd fod y mwyafrif o'r Cynghorwyr o blaid cychwyn o ochr pentref Dinas. Gwelwyd felly bod angen cael cyfarfod ar y safle i roi peg yn y lle y bydd y garreg gyntaf i gael ei gosod.
- b) Roedd draen ar ffordd Ty'n Braich wedi blocio, ac ar gyfnod o lif, roedd tarmac yn cael ei godi - roedd yr union safle yn agos i'r briffordd.
- c) Codwyd cwestiwn am ffens derfyn rhwng mynwent Llanydawddwy, a thir ochr ucha'r fynwent, sef yr angen i gael dealltwriaeth o pwy sy'n gyfrifol. Penderfynwyd y dylai'r Cyng. Hedd Pugh ac Elwyn Jones ymweld a'r safle.

- d) Cyfeiriwyd at y drafodaeth y tro diwethaf ynglyn a Cynllun Uwchraddio Llwybrau Cyhoeddus cylch Dinas. Cyn mynd ymlaen a'r drafodaeth, cafwyd datganiad diddordeb gan y Cynghorwyr Elwyn Jones, Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Berwyn Hughes, Hedd Pugh, a John P Jones a gadawsant yr ystafell. Trafodwyd y mater yn faith, a bod angen eglurder o ran pa gyswllt oedd yna rhwng y Cyngor Cymuned a'r prosiect yma. Nodwyd fod cynsail wedi ei osod gyda'r hen Siop, a oedd yn brosiect yn cael ei redeg gan Gwmni Nod Glas. Daethpwyd i'r penderfyniad unfrydol nad oedd cyswllt i fod rhwng y Cyngor Cymuned a'r prosiect yma o uwchraddio llwybrau cyhoeddus, ac y dylid eu cadw yn gwbl arwahan. Hefyd cadarnhawyd na ddylid defnyddio endid nac enw y Cyngor Cymuned mewn unrhyw ran o'r prosiect i'r dyfodol.
- e) Roedd dwr ar y ffordd ger Dugoed Mawr ar yr A458, ac angen tynnu sylw yr Asiantaeth Cefnffyrdd unwaith eto.
- f) Adroddwyd fod coed ac iddew yn tyfu ym mynwent Mallwyd, gan gynnwys oddiamgylch rhai o'r cerrig beddi. Penderfynwyd fod angen edrych i mewn ymhellach i hyn, ac y dylid cael cyfarfod ar y safle gyda Tegid Humphreys gyda golwg iddo wneud y gwaith fel rhan o'r gwaith torri gwair yno. Gofynnwyd i Cyng. Tegwyn Jones, Geraint Morgans a'r Clerc i'w gyfarfod ar y safle.
- g) Roedd dwr yn dod i lawr o'r goedwig ac heibio tai Godre'r Coed, ac angen codi hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 13eg o Fawrth yn Neuadd Dinas
Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.**